# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Mehefin 2023 – Cyfrol 8– Rhifyn 9

## Dathlu'r Coroni



Mwynhaodd disgyblion Ysgol Bryn Clwyd eu dathliad yn yr ysgol. Roedd Dosbarth y Babanod wedi gwneud brechdanau, a Little Acorns wedi gwneud cacennau ar gyfer dathliad arbennig.

Diolch i'r Cyngor Cymuned am y mygiau a gyflwynwyd i bob plentyn.




**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais* o swyddfa'r post, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

## Siop Gymunedol Llandyrnog

**O dudalen Facebook y siop, 3 Mehefin:**

*Wel am wythnos! Diolch i haelioni a ffydd llawer o bobol leol a ledled y wlad, mae'r cynnig cyfranddaliadau bellach dros y trothwy o £30,000 ac mae heddiw wedi cyrraedd £34,850 gyda 163 o fuddsoddwyr.*

*Mae hon yn bleidlais mor bwysig o hyder yn y prosiect ac ni allwn ddiolch yn ddigonol i chi am hyn.*

*Fel y gwelwch yn ein Prosbectws Rhannu (ar gael ar ein gwefan) mae gennym werth hyd at £70,000 o gyfranddaliadau ar gael. Mae gennych hyd at 8 Mehefin os hoffech yrru eich cais i mewn a gallwch gael manylion llawn ar y we – www.llandyrnogshop.com neu ffoniwch Emyr ar 07515972300 am ffurflen gais.*

*Emyr Morris*

# Pytiau newyddion y pentre

**Llongyfarchiadau** i'r Athro Elwen Evans, merch Olga ac Elwyn Evans, ar ei phenodiad yn is-ganghellor Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Elwen yw'r ferch gyntaf i ddal y swydd.
Hefyd i Gwen Davies, o Winllan y Dyffryn, a gyrhaeddodd rhestr fer gwobr Seren Ddisglair y Flwyddyn yng Ngwobrau Bwyd a Diod Cymru. Rhoddir y wobr hon i unigolion yn eu pum mlynedd gyntaf yn y diwydiant bwyd. Pob dymuniad da i'r dyfodol, Gwen!

**Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd:** Roedd y canlynol yn llwyddiannus yn y cystadlaethau celf, dylunio a thechnoleg:
Jini Williams, 1af gwaith creadigol 2D, Bl. 2 ac iau
Penri Williams, 3ydd ffotograff lliw, 2D, Bl. 2 ac iau
Flynn Humphreys, 2il tecstilau Bl. 3 a 4, ac 2il serameg Bl. 3 a 4

**Croeso** i Dona Hughes ac Emlyn Bailey a'u plant Ffion, Alis, Nansi, Anni, Loti a Twm, sydd wedi dod i fyw i'r Rheithordy.

**Pêl-droedwyr:** Efallai i chi gofio ein bod wedi sôn y mis diwetha am lwyddiant Alisha Whitehead-Hughes gyda thîm pêl-droed dan 16 Genod Henllan. Mae'n bleser cael dweud bod y tîm wedi ennill cwpan Cynghrair Pêl-droed Merched Gogledd Cymru.

Mae Alys Evans, Nant y Mynydd, yn aelod o dîm dan 14 Genod Henllan under 14 a ddaeth i'r brig yn eu hadran nhw yng Nghynghrair Pêl-droed Merched Gogledd Cymru.

Roedd Mati Nel, Parc Ty'n Llan, sy'n chwarae i dîm dan 11 Genod Henllan, yn aelod o dîm Ysgol Twm o'r Nant a enillodd cystadleuaeth genedlaethol pêl-droed yr Urdd. Gwyliwch eich hun, Jess Fishlock, mae genod Llandyrnog yn dod!

DBP
Denbigh Building Plastics
*SUPPLIERS & INSTALLERS*
*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*
Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

BLUE HAND MOWERS
**Blue Hand Mowers**
Repair and servicing of all garden machinery
Lawn mowers and lawn tractors
Chain saws
Hedge cutters
Strimmers
Disc cutters
Quad bikes
Leaf blowers
Hand tools
Collection and delivery service available
Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google
www.bluehandmowers.co.uk
enquiries@bluehandmowers.co.uk
☎0775 20 35 462

## Gwasanaethau mis Mehefin
## Yn Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 4edd | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 11eg | 11.15 | Boreol weddi |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 18fed | 11.15 | Boreol weddi |
| 25ain | 11.15 | Cymun bendigaid |

**Bore coffi at**
**EGLWYS ST TYRNOG**
**Dydd Sadwrn, 10 Mehefin**
**Neuadd y Pentre, 10.00–11.30**
**Derbynnir yn ddiolchgar gyfraniad at y stondin cynnyrch cartref**

St. Kentigern
HOSPICE & PALLIATIVE CARE CENTRE
HOSBIS A CHANOLFAN GOFAL

**Dydd Sadwrn,**
**24 Mehefin am 10am**
**BORE COFFI**
**yng ngardd Maes y Wern**
**trwy garedigrwydd**
**John ac Olwen Rowlands**



**Cod post: LL16 4EU**

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 5fed | Trefoil Guild 2pm<br>Cyfarfod Pwyllgor Llais Llandyrnog, 7pm |
| Mawrth | 6ed | Sefydliad y Merched, 7–9pm |
| Mawrth | 13eg | Clwb Llyfrau 10am |
| Mercher | 14eg | Undeb y Mamau 2pm |
| Mawrth | 20fed | Cyngor Cymuned 7pm |
| Llun | 26ain | Clwb Cwiltio 7pm |
| Mawrth | 27ain | Clwb Llyfrau 10am |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 3ydd | Grŵp crefftau |
| Llun | 5ed | Brownies 5.30 – 7pm |
| Mercher | 7fed | Côr 7.30 – 9.30pm |
| Sadwrn | 10fed | Bore coffi – Eglwys St Tyrnog, 10 – 11.15am |
| Sul | 11eg | Llan Llanast 3.30 – 5pm |
| Llun | 12fed | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Mercher | 14eg | Cyfarfod pwyllgor y sioe flodau, 7pm (stafell waelod)<br>Cyfarfod Pwyllgor y Gymdeithas Hanes 7.30pm (y Neuadd) |
| Sadwrn | 17eg | Bore coffi – Ysgol Bryn Clwyd 10 – 11.30am |
| Llun | 19eg | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Llun | 26ain | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |

*I logi Neuadd y Pentre, ffoniwch Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.*

# Pontydd

Yn dilyn erthygl Rod ar ffosydd y mis diwetha – a diddorol iawn oedd hi hefyd – fe soniodd rywun (diolch, Iestyn!) siŵr braidd bod gan rai o'r pontydd sy'n croesi'r Afon Clwyd enwau. Ac mi soniodd rhywun arall (diolch, Anwen) efallai base Bryn yn gwybod. Dyna dwi'n gael am beidio bod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor.

Felly mi wna' i drio rhannu efo chi fy ngwybodaeth gyfyngedig am y pontydd 'ma. Ond cofiwch, dwi'n ddigon parod i gael fy nghywiro. A do, dwi wedi sefyll oddi tanynt sawl tro yn fy *waders* wrth bysgota pan oeddwn i'n llanc, yn rhyfeddu at y ffordd mae'r cerrig clo – y cerrig ola i fynd i mewn a'r rhan uchaf o'r bwa – wedi dal y pwysau a'i drosglwyddo i'r cerrig sy'n eu cysylltu efo'r garreg sylfaen. Pob un yn ei dro yn dal rhywfaint o'r pwysau – pob carreg yn ysgwyddo rhywfaint o'r baich. Felly dyma ni – dewch i ni fynd am dro.

**Pont Telpyn – rhwng Rhewl a Gellifor**



Pont un bwa, tua 8m o hyd, wedi ei hadeiladu mewn dull gwerinol tua 1800. Bwa eitha bas sydd iddi. Nodweddion amlyca'r bont yma ydi'r meini copa, sydd â hoel naddu efo cŷn oer, baswn i'n dweud, a strapiau efydd yn dal y meini at ei gilydd.

Ychydig flwyddyn yn ôl, cwympodd rhan o'r bont yma. Ond gyda help peirianneg fodern – rodiau dur di-staen a resin – cafodd y bont ei hatgyfnerthu a bydd yno am ddau gan mlynedd arall.

Cyn i chi gyrraedd Pont Llanychan, wrth i chi ddod o Rhewl, mae yna bont sydd heb enw – pont sych. Pont ydi hon i gario llifogydd o'r naill weirglodd i'r llall.



**Pont Llanychan – rhwng Llanychan a Rhewl**



Enghraifft o bont un bwa uchel iawn o ddechrau'r 18ed ganrif. I'r rheini ohonoch sy'n teithio i Ruthun, hon ydi'r anodda i fynd drosti – pont canu corn go iawn!

**Pont Perfa – rhwng Llawog a Llanynys**



Yn ôl yr hanes, mae hon yn bont dipyn hŷn, Cafodd ei chodi tua diwedd y 17eg ganrif ac mae wedi ei chofrestru Gradd 2. Mae'n bont

# Pontydd: parhad

dau fwa efo'r hyn a elwir yn *cutwaters* – rhyw fath o drwyn pigog ar y ddwy ochr. Mae'r rhain wedi'u hadeiladu yn llawer mwy diweddar i leihau pwysau'r dŵr ar y bont.

**Pont Clwyd – y bont rhwng Llandyrnog a Llanrhaeadr**



Dim ond i chi edrych yn fanwl mi wnewch chi sylwi mai slabiau solat o garreg galch sy'n ffurfio parapet y bont yma eto efo strapiau o efydd yn dal y slabiau at ei gilydd, yn hytrach na waliau o garreg fwy traddodiadol. Does yna chwaith ddim meini copa.

Ar un adeg pont gul iawn oedd hon ond os cofiwch mi, roedd y bont yma wedi cau am gyfnod hir rai blynyddoedd yn ôl, achos roedd y ddau hanner wedi gwahanu fel 'tae – ond maent bellach wedi eu huno diolch byth.

*Bryn Davies*

*(i'w barhau)*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

# Cyngor gan yr Heddlu

**Rhestr wirio ar gyfer diogelu eich cartref**

Pan fyddwch yn mynd allan mae'n bwysig gadael eich cartref yn ddiogel. Gall bod â 'threfn gadael' helpu i sicrhau nad ydych yn anghofio'r pethau amlwg ond pwysig, fel peidio â gadael eitemau gwerthfawr wrth ymyl ffenestri, neu fod heb olau yn y tŷ os bydd hi'n dywyll cyn i chi gyrraedd adref. Ceisiwch fynd i'r arfer o ddilyn eich trefn eich hun pan fyddwch yn cloi eich cartref. Bydd hyn yn sicrhau nad ydych yn anghofio unrhyw beth. Rydym yn argymell eich bod yn gwneud y canlynol cyn mynd allan:

- cau a chloi eich holl ddrysau a ffenestri, hyd yn oed os mai dim ond am ychydig funudau y byddwch chi allan
- cloi unrhyw ddrws yn ddwbl
- gwneud yn siŵr bod unrhyw eitemau gwerthfawr o'r golwg
- cadw bagiau llaw ymhell oddi wrth y blwch llythyrau neu fflap y gath a chuddio pob allwedd gan gynnwys allweddi'r car, oherwydd gallai lleidr fachu allweddi neu eitemau gwerthfawr drwy agoriad bychan
- peidio byth â gadael dogfennau'r car neu ID mewn mannau amlwg fel y gegin neu'r cyntedd
- gyda'r hwyr, cau'r llenni a gadael y golau ymlaen
- os ydych allan trwy'r dydd, y cyngor yw i chi ddefnyddio amserydd i droi'r golau ymlaen yn awtomatig gyda'r hwyr
- arfogi eich larwm lladron
- gwneud yn siŵr bod y gât ochr wedi'i chloi
- cloi eich sied neu garej
- cloi eich beic y tu fewn i sied neu garej gadarn, wrth ddyfais sydd wedi'i bolltio i'r llawr neu'r wal, fel angor llawr.

**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

# Ysgol Bryn Clwyd

Llongyfarchiadau i Mr Ben Lindquist ar gael ei benodi'n bennaeth yr ysgol. Mae Mr Lindquist yn gyfarwydd â'r ysgol gan ei fod wedi treulio ambell flwyddyn yn athro yma.



Llongyfarchiadau hefyd i Flynn ar ennill dwy ail wobr yng nghystadlaethau celf, dylunio a thechnoleg Eisteddfod yr Urdd.

**Dosbarth babanod**

Un o bynciau'r dosbarth oedd yr awdur Julia Donaldson. Roedd y plant wedi mwynhau'r llyfr *Room on the Broom* a chafwyd hwyl yn gwneud swynion hud a choesau ysgub.

Mae Blwyddyn 2 wedi bod yn ymchwilio i anifeiliaid yn Affrica yn ystod eu dysgu annibynnol ac wedi bod yn dysgu sut i gasglu data a'i gyflwyno. Arolwg traffig oedd un o'r tasgau.

Maen nhw hefyd wedi bod yn ysgrifennu sgriptiau ac yn cael hwyl garw yn dewis offer a gwisgoedd ar gyfer perfformio'u gwaith.

Hefyd roedd y plant wedi mwynhau ymweliad gan Darren, yn defnyddio sioe hud I ddysgu'r wers i blant, '*Dont' touch, tell!*'




**Dosbarth iau**

Cafodd y plant hwyl garw ar eu tasg Healthy Hugo o greu dawns yn arddull y band OK Go!

Roedd y wers chwarae glockenspiel gyda Cherdd Cydweithredol Dinbych yn hwyl hefyd. Dysgodd y plant ddwy dôn mewn dim ond un wers.



Roedd sioe hud gan Darren yn ffordd hwylus iawn o ddysgu'r wers 'Don't drink, think!' Daeth PC Llinos hefyd i roi'r neges, 'It's your choice.'

Mae'r disgyblion wedi bod yn defnyddio nifer o sgiliau TGCh, gan gynnwys codio microbits a defnyddio iMovie, Apple Clips a GarageBand ar yr ipads i recordio'u rhaglenni dogfen am natur eu hunain.

Roedd y plant yn edrych yn wych yn eu dillad brenhinol i ddathlu'r coroni. Diolch i'r Cyngor Cymuned am gyflwyno mygiau i bob un o'r disgyblion.



# Enwau newydd

Yng nghyfarfod diwethaf pwyllgor y Llais, cododd y mater o enwau tai sydd wedi'u newid yn yr ardal. Dyma rai enghreifftiau roedd aelodau'r pwyllgor yn gallu meddwl amdanyn nhw – rhai'n fwy diweddar na'i gilydd. Allwch chi feddwl am ragor?

The Nook > Nythfa
Cefn Gwrdy > Plas Derwen
Gwninger > Gwynant (Fforddlas)
Bryn Eithin > Bracken Hill Farm (Llangwyfan)
Dedwyddfa > Millstream Cottage (Pentrefelin)
Trwyn Swch > Gilfach
Flora > Llwyn Helyg.

**Rhifau ffôn defnyddiol**
Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345




# Yr Hwb

Hoffai merched yr Hwb ddiolch i bawb a ddaeth i bafiliwn Cae Nant am goffi, te a chacennau ddydd Mercher, 24 Mai. Roedd eich gweld chi i gyd yn hyfryd (a'r plant a ddaeth yn ddiweddarach) ac roedd eich geiriau caredig yn galondid mawr.

Bydd y digwyddiad nesaf ddydd Mercher, 28 Mehefin, o 11 y bore tan 5 y pnawn. Edrychwn ymlaen at eich gweld bryd hynny.

*Diolch yn fawr i ferched yr Hwb am eu gwaith caled yn rhoi cyfle i'r pentrefwyr gyfarfod a chymdeithas, ac wrth gwrs, am y cacennau hyfryd.*





**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**



# Hanesion Hazel

Mae'n anodd coelio ein bod ni hanner ffordd drwy'r flwyddyn yn barod ac yn cyfri'r dyddie cyn y diwrnod hiraf – Mehefin 21ain. Gan fod mwy o olau dydd a'r tymheredd wedi codi, mae byd natur ar ei orau. O'r diwedd, â'r rhew yn ddim ond atgof, cawn blannu'r planhigion tyner allan.

Eleni, does gen i ddim cymaint o blanhigion – achos maen nhw'n rhy ddrud. Mi ges fraw wrth weld prisiau mynawyd y bugail y diwrnod o'r blaen. Dyna'r drwg o fynd i ganolfannau garddio – mae hi'n demtasiwn prynu a phrynu'n ddi-stop! Os yden ni am gynilo ceiniog neu ddwy, beth am drio cael planhigion am ddim, neu'n rhatach mewn rhyw ffordd arall?

Y ffordd fwyaf amlwg ydi tyfu rhai eich hun o hadau. Wrth gwrs, mae'n rhaid talu am y pecyn o hadau i ddechrau. Ond, nes ymlaen, gallwch gadw eich hadau eich hun. Mae bysedd y cŵn yn rhai da i drio – gadewch i'r blodau fynd i had, ac mi wneith y pryfed a'r adar gwyllt eu chwalu i bobman. Ffordd arall ydi cymryd y codenni sych, eu rhoi mewn papur brown, a'u cadw dros y gaeaf mewn lle sych, ar gyfer y gwanwyn nesa.

Mae planhigion wedi'i hau'n naturiol i'w gweld yn ystod misoedd y gaeaf. Mi fydda i'n eu codi a'u plannu lle dwi am eu gweld nhw'r flwyddyn ganlynol. Planhigion eilflwydd ydi bysedd y cŵn – mi gewch chi roséd o ddail y flwyddyn gyntaf a blodau'r ail flwyddyn. Mae rhai yn gallu blodeuo bob blwyddyn.

Dwi wrth fy modd hefyd efo'r pabi Cymreig – y drwg ydi, fyddan nhw byth yn tyfu lle maen nhw fod i dyfu – mi fyddan nhw'n crwydro i gorneli a chraciau. Felly, mi fydda i'n gadael iddyn nhw – bob pabi ar ei liwt ei hun! Mae rhai pobl yn cyfnewid hadau – ffordd dda o gael hen fath o hadau sydd ddim bellach ar lein nac yn y llefydd garddio.

Pam na drïwch chi wneud toriadau eich hun? Lle da i ddechrau ydi gerddi eich ffrindiau



– gyda'u caniatâd wrth gwrs! Flynyddoedd maith yn ôl, mi gymrodd fy nhad doriad o rododendron oedd yn tyfu yn y gwrych yng ngwaelod y Lôn Goch. Mae'n blaguro'n binc hyfryd, ac yna'n troi'n glystyrau gwyn drwy fis Mai. Ond, a dweud y gwir, mae'r hen ddyddiau hynny wedi hen fynd, ac mi gewch ambell i 'twt, twt' y dyddie yma am wneud ffasiwn beth!

Ddwy flynedd yn ôl, mi ddechreuais i ar dechneg o'r enw haenu (*layering*) – mae'r planhigyn bach newydd dal yn sownd yn yr hen blanhigyn a'r goes mewn potyn o bridd i gymell y gwreiddiau newydd. Megis dechrau ydw i, ond rydw i wedi llwyddo i ddatgysylltu'r planhigyn newydd a'i roi mewn potyn – gyda lwc, mi ga' i ei blannu flwyddyn nesaf.

Ffordd gynt o gael planhigion newydd ydi ffeirio – rhwng ffrindiau, neu edrych ar wefannau cymdeithasol i weld os oes rhywun yn rhoi planhigion. Dwi wedi cael planhigion hardd gan bobol leol yn Llandyrnog sy'n gadael y rhai dros ben tu allan i'w tai – syniad gwych.

Dwi hefyd yn anelu bob tro at y planhigion sy wedi dod lawr yn eu pris yn y llefydd garddio. Mi ges i wair arbennig iawn am hanner pris o erddi Bodnant y llynedd. Mae ambell un o'r rhain yn edrych braidd yn drist – ond rhowch chi fymryn o ddŵr a photyn mwy iddyn nhw, mi wellan nhw bob dydd. Gallwn ni i gyd fwynhau garddio, hyd yn oed os oes rhaid cyfri pob ceiniog – wyddoch chi ddim be fydd y fargen nesa i chi ei gario adre y tro nesa.

*Hazel*

# Rysáit

***Teisen Lardi***
450g blawd gwyn cryf
½ llwy de o halen
25g lard
50g siwgwr
15g burum sych
275ml llefrith cynnes (tymheredd gwaed)
225g cyrens
125g syltanas

***Ar gyfer y llenwad:***
100g lard wedi meddalu
100g siwgwr brown tywyll meddal
llwyaid de dda o sbeis cymysg

2 dun pobi, 6-7 modfedd

Cymysgwch y llefrith, y burum a'r siwgwr a'i adael i weithio am tua 15 munud.
Rhwbiwch y lard i mewn i'r blawd a'r halen.
Ychwanegwch y llefrith i'r cymysgedd a'i gymysgu'n dda nes ei fod yn does llyfn.
Wedyn, ei orchuddio a'i adael am tua 20 munud. Yna, ychwanegwch y cyrens a'r syltanas a'u tylino i mewn yn dyner (dim defnyddio cymysgwr). Gadewch y toes i orffwys am 20 munud, yna ei rolio allan, neu ddefnyddio'r dwylo i'w siapio i siâp petryal, tua 18 × 6 modfedd. Cymysgwch y lard meddal, y siwgwr a'r sbeis, a'i ledaenu dros 2/3 o'r petryal. Plygwch y rhan sy'n glir dros y canol a phlygwch eto dros y rhan olaf. Ail-siapiwch y petryal hir fel o'r blaen (mae hwn braidd yn seimllyd!).
Rholiwch y petryal, a'i sleisio yn ei hanner – cewch ddau ddarn tua 3 modfedd o drwch wedi ei rolio. Gosodwch nhw yn y tuniau pobi (dim angen iro'r tuniau) a'u gadael i godi am tua 1 awr. Eu pobi ar 200 °C am tua 30 munud. Os oes gennych chi *Aga* neu *Rayburn*, maen nhw'n coginio'n well ar lawr y ffwrn. Ar ôl eu coginio, rhowch y teisennau lardi ben i waered ar blatiau, fel bod y lard a'r siwgwr yn treiddio trwyddyn nhw.

*Roger Warner*

# Tuesday Club




Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Mai oedd Richard Davies, Hafod y Bryn. Mae Richard yn arbenigwr ar y sector llaeth, a chyn ymddeol yn 2020 roedd yn uwch reolwr cyfnewid gwybodaeth gyda'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth.

Testun sgwrs Richard oedd y datblygiadau a'r newidiadau mawr mewn cynhyrchu llaeth.

Roedd y ffigyrau a roddodd yn ddiddorol iawn – yn y Deyrnas Unedig yn 1957 roedd 166,000 o gynhyrchwyr llaeth, ond dim ond 7950 yn 2022. Ond serch hynny, 8 biliwn litr o laeth yn cael ei gynhyrchu yn 1957, a 22 biliwn litr yn 2022. Roedd 2022 yn flwyddyn arbennig o broffidiol i gynhyrchwyr llaeth, oherwydd cynnydd aruthrol yn y galw am laeth a'r cynhyrchion.

Rhestrodd Richard y nifer fawr o ffermydd a arferai gynhyrchu llaeth yn Llandyrnog, ond erbyn hyn dim ond tair fferm yn y cyffiniau sy'n cadw gwartheg godro.

Diolchwyd i Richard am sgwrs hynod ddiddorol ac anfonwyd ein cofion at Joyce, Menna, a Gwilym a Glenys. Bydd y clwb yn cyfarfod nesaf yn y Drovers Arms, Rhewl ar 15 Mehefin ar gyfer ein cinio ganol haf.

**Diolch o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi ar gyfer Cymorth Cristnogol ym mis Mai, gan godi £350.**

**Hefyd i bawb a gyfrannodd £540 i'r bore coffi at Hosbis St Cyndeyrn**

# Sefydliad y Merched

Daeth nifer dda i'r cyfarfod ar 2 Mai.  Roedd sawl un o aelodau Llandyrnog a Llangwyfan wedi mynychu a mwynhau cinio Gwanwyn yn nhŷ'r Sefydliad yn Ninbych.

Yn anffodus, ni allai'r wraig oedd i fod i sgwrsio am ddraenogod fod yn bresennol. Felly fe chwaraeom ni gêm *60 eiliad*, lle'r oedd yr aelodau'n siarad am funud ar destun oedd ar gerdyn – amrediad diddorol o destunau o '*sownd mewn lifft*' i '*pethau hynod rydw i wedi'i weld ar fy nheithiau*'.

Cynhaliodd y Mudiad Fore Coffi ddydd Llun 8 Mai yng Nghae Nant, a diolchwyd i bawb am eu presenoldeb – yn enwedig y rheini oedd yn gwisgo coronau!





Edrychwch allan am ein stondin yn y Sioe Flodau, ddydd Llun, 28 Awst.

Bydd ein cyfarfod nesaf Nos Fawrth 6 Mehefin am 7pm yn yr Ystafelloedd Coco – croeso cynnes i bawb

*Jane Borthwick*

# Llan Llanast

Yn ein cyfarfod mis Mai, fe wnaethom ni ddathlu Coroni Brenin Charles lll.  Gwnaethom ni goronau (wrth gwrs!) a nifer o weithgareddau'n ymwneud â'r coroni a Llundain. Addurnwyd coetsh brenhinol brydferth (a adeiladwyd gan John), ac fe gawsom ni dynnu ein lluniau ynddi yn gwisgo ein coronau!




Roedden ni'n cofio hefyd am y baban Iesu a anwyd ym Methlehem, ac er na chafodd reid mewn coetsh aur na gwisgo coron, fe oedd Brenin y Brenhinoedd, ac mae'r Brenin Charles yn ei addoli fel rydym ni'n ei wneud.

*Mary Steel*

# Arbedwch arian



Os ydych chi, fel Bryn Davies, yn prynu'r Daily Post bob dydd, oeddech chi'n gwybod y gallwch arbed 40% oddi ar bris eich papur, drwy gysylltu â help@newspapersubs.co.uk? Byddwch yn cael talebau drwy'r post a'r cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd â'r rhain at eich siop bapurau. Cyfanswm y gost wedyn fydd tua £26, sydd dipyn yn rhatach na'r pris llawn. Os nad ydych chi'n gallu gwneud hyn ar-lein, ffoniwch nhw ar 0333 202 8000.

# Neges gan yr Offeiriad


Gelwir Sul cyntaf fis Mehefin yn Sul y Drindod yng nghalendr yr Eglwys. Yn ôl Amgueddfa Hanes Byd Natur aeth asteroid i wrthdrawiad â’r ddaear tua 66 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ac yn sgil hynny diflannodd y deinosoriaid. Bu’r ymerodraeth Rufeinig yn rheoli’r byd ar raddfa fwy nag unrhyw wlad mewn hanes, a bellach mae ysgolheigion ein canrif ni wedi cyfyngu 210 theori’r Almaenwr Alexander Demandt am Gwymp yr Ymerodraeth i 8, yn cynnwys gwleidyddiaeth a wnelo â’r hinsawdd, ac argyfyngau ariannol a chymdeithasol.

Allwch chi ddim dileu Cristnogaeth gan mai dyna’r cwbl sydd ar ôl mewn gogoniant pan fydd popeth arall wedi darfod. Collwyd bywydau di-ri cyn cael cytundeb Credo Nicea yn y bedwaredd ganrif – y gred sylfaenol sy’n uno’r eglwysi Cristnogol i gyd. Adroddir y credo hwn yn aml mewn eglwysi, Sul ar ôl Sul ac mewn ambell eglwys gyda phlant ifanc, mae pawb yn ei ganu. Mae mwy o wybodaeth am y credo i’w chael yn llyfr Michael Leyden – *Faithful Living* – llyfr yn llawn moeseg gyfoes.

Mae’n anodd egluro’r Drindod a dydw i ddim am roi cynnig arni – wrth geisio disgrifio natur Duw drwy athrawiaeth, daw rhwystr ar ben rhwystr. Mae Duw yn un sylwedd ac yn dri pherson, y Tad y Mab a’r Ysbryd Glân – mor syml â hynny!

Er na all Cristnogaeth gael ei dileu byth, mae Cristionogion yn y byd wedi cael amser caled yn ddiweddar. Cofiwch adael i mi wybod os ydych chi am glywed gweddi arbennig ar gyfer gweddi gyhoeddus neu breifat. Er bod y Drindod ei hun yn anodd ei deall, mae ei phŵer yn bellgyrhaeddol. Duw Cariad yw ein Duw ni ac mae’r Drindod Sanctaidd yn cynrychioli'r berthynas berffaith. Bendith Duw arnom i gyd yn ein hymwneud â phobl - yn agos ac ymhell.

**Y Parch. Martin Pritchard**
**Ardal Genhadu Dinbych**






# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

***Sgiliau pob dydd ein cyndeidiau***

Cafwyd cynulliad ardderchog (65+) o aelodau a ffrindiau yng nghyfarfod mis Mai o'r Gymdeithas Hanes Lleol. Croesawyd Mrs Elizabeth Benson ac aelodau o Gild Nyddwyr, Gwehyddion a Lliwyddion Clwyd, ac roedd y gynulleidfa wedi ei cyhfareddu gan y sgwrs a'r arddangosiadau, a chael y profiad ymarferol o ddefnyddio'r gwahanol sgiliau.

Trafodwyd hanes cynhyrchu tecstilau oedd yn broses gymhleth ac yn cymryd llawer o amser cyn y Chwyldro Diwydiannol. Roedd yn rhaid nyddu'r deunyddiau crai e.e. gwlân, llin a chotwm i edafedd neu edau gyda llaw – gwaith i fenywod oedd hwn yn aml. Roedd y gwehyddion, dynion fel arfer, yn creu brethyn gyda gwyddiau yn y cartref neu mewn gweithdai bychain. Roedd y deunyddiau crai yn cael eu cludo i gartrefi'r gweithiwyr, lle'r oedden nhw'n gweithio ar eu cyflymder eu hunain, ac yn cynhyrchu gwaith o safon amrywiol. Roedd y gwaith gorffenedig yn cael ei anfon i Amwythig, prif dref y diwydiant, ac yna ei ddosbarthu ledled Prydain a thramor. Gyda dyfeisiadau newydd ym myd tecstilau o ganol hyd at ddiwedd y 1700au, gellid symud y cynhyrchu o'r cartref i'r ffatri.

Yng nghyd-destun yr ardal leol, gwelir o gyfrifiadau plwyf Llandyrnog rhwng 1662 a 1762, fod nifer o bobl ynghlwm â'r diwydiant ffabrig yn yr ardal. Nodwyd mai gwaith mwyafrif o ddynion oedd 'gwehydd', ond roedd 'gweithwyr gwlân' hefyd, a nifer o bobl yn gweithio gyda fflacs i wneud lliain.

Roedd Arddangosfa eang yng nghefn y neuadd o eitemau ac offer y grefft, yn ogystal â bwrdd sampl lliwio/llifo gwlân yn dangos y lliwiau y gellir eu cynhyrchu o wahanol flodau a deunyddiau naturiol.  Ar ddiwedd y sgwrs, cafodd bawb gyfle i weld nyddu a gwehyddu ar waith, a chael cyfle i ddefnyddio'r peiriannau eu hunain – a sylweddoli ar yr un pryd mor anodd oedd y gwaith. Roedd gwerthfawrogiad llawn erbyn diwedd y noson o sgiliau'r cyndeidiau!





Os oes unrhyw un â diddordeb mewn meistroli'r sgiliau nyddu a gwehyddu, mae croeso iddyn nhw ymuno â Gild Clwyd sy'n cyfarfod 3ydd Dydd Sadwrn yn y mis yng Ngholeg Llysfasi (Coleg Cambria). Am ragor o wybodaeth ewch i *clwyd@spindizzy.net*

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas Hanes Nos Fercher 18 Hydref yn Gyfarfod Blynyddol am 7.00pm. Dilynir hwn am 7.30pm gan Mr Berwyn Evans fydd yn sgwrsio am *Wersyll Carcharorion Rhyfel Dyffryn Aled.*

**Mae croeso i bawb i gyfarfodydd y gymdeithas gyda thâl aelodaeth £6 am raglen blwyddyn o 4 cyfarfod, ac ymwelwyr £3 y cyfarfod.  Bydd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd pob cyfarfod.**

**Am ragor o fanylion, ymholiadau, ymuno â'r gymdeithas neu wirfoddoli i fod yn rhan o brosiectau'r Gymdeithas Hanes, e-bostiwch Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan os gwelwch yn dda: llangwyfanhistory@hotmail.com.**

# Canlyniadau Cynghrair Pêl-droed yr Haf

**Llandyrnog** v Llanfair DC 1–1
Ysceifiog v **Llandyrnog** 4–2
**Llandyrnog** v Cefn 2–3
**Llandyrnog** v Caerwys 4–1
Trefnant v **Llandyrnog** 1–8
**Llandyrnog** v Caerwys 1–0
Llangynhafal v **Llandyrnog** 4–5
**Llandyrnog** v Llanrhaeadr 0–0
**Llandyrnog** v Rhewl 2–2
Clawddnewydd v **Llandyrnog** 3–4
**Llandyrnog** v Henllan 1–4
Nantglyn v **Llandyrnog** 4–2
Llanfair v **Llandyrnog** 1–6
**Llandyrnog** v Ysceifiog 1–1

**Y Tabl – ar ôl 25 Mai**

| Tîm | Pwyntiau |
|---|---|
| Llanrhaeadr | 34 |
| Cefn | 29 |
| Henllan | 21 |
| Nantglyn | 19 |
| Ysceifiog | 18 |
| **Llandyrnog** | **18** |

Pob dymuniad da i'r tîm ar gyfer gemau mis Mehefin.

**Os digwydd i chi ddod ar draws llwybr cyhoeddus sydd wedi'i rwystro neu sydd ag india-corn wedi'i blannu ar ei draws, defnyddiwch y cyswllt hwn i riportio'r mater: https://www.denbighshire.gov.uk/en/parking-roads-and-travel/public-rights-of-way/about-public-rights-of-way.aspx**

# Capel y Dyffryn

***Pob dymuniad da*** i Buddug, Rhydonnen ac Elwyn Ger y Llan yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty; ac i Gwenan Mars Lloyd a fydd yn recordio rhaglen Noson Lawen ar gyfer S4C yn Pontio, Bangor, nos Fercher 7, Mehefin.

***Llongyfarchiadau*** i Steffan, Dregoch ar ennill yr ail wobr, gyda'i ffrind, yn adran gemwaith cystadlaethau celf, dylunio a thechnoleg Eisteddfod yr Urdd.

**Gwasanaethau mis Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| $4^{\text{ydd}}$ | 11.00 | Parch. Andras Iago |
| $11^{\text{eg}}$ | 9.45 | Parch. Gareth Edwards |
| $18^{\text{fed}}$ | **17.00** | Parch. Robert Parry |
| $25^{\text{ain}}$ | 9.45 | Parch. Andras Iago (Cymun) |

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606


GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
01745 815141
07808970364
E-bost: evansautoclinic@btconnect.com

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mai Cyngor Cymuned Llandyrnog

Ail-etholwyd Cynghorydd Griffith yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Butler yn Is-gadeirydd.

- Roedd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn bresennol. Roedd adroddiadau am gerbydau heb awdurdod yn defnyddio'r llwybr ceffyl rhwng Pont Llundain a Moel Arthur – nid yw'n agored i bob cerbyd. Ni all Heddlu Gogledd Cymru wneud llawer oni bai bod ganddyn nhw rifau cofrestru. Felly, os bydd hyn yn digwydd eto, ffoniwch 101 ar unwaith gyda rhifau cofrestru.
- Mynegwyd pryder am ddiogelwch y ffordd tu allan i Gae Nant – y Cyngor Cymuned yn gofyn i Swyddog Diogelwch Ffordd Cyngor Sir Ddinbych am gyngor a chyfarwyddyd
- Cyngor wedi gwneud cais am offer monitro cyflymder rhwng y Waen a Brynllys ond dim ymateb gan y Cyngor Sir.
- Mae'r Cyngor wedi dosbarthu mygiau i holl ddisgyblion yr ysgol gynradd yn yr ardal i rai oedd yn dymuno eu derbyn. Diolchwyd i'r Cynghorwyr Butler, Griffiths ac Evans am eu gwaith yn dosbarthu'r mygiau.
- Adeiladau gwag – mae CSDd wedi rhoi rhybudd gwelliant i berchennog yr adeiladau rhestredig, ond heb gael ymateb. Mae gan y Cyngor Sir dîm erbyn hyn fydd yn trafod pa opsiynau sydd ar gael i ddiogelu'r adeiladau rhestredig yn Sgwâr yr Eglwys, ac adnewyddu'r tai gwag yn Teras Cinmel.
- Trafodwyd dau gais cynllunio – sied amaethyddol yng Nghwm Hyfryd a newid defnydd yr Hufenfa i waith cynhyrchu pigment/ychwanegyn.

***Materion MHC***

- Yn dilyn digwyddiadau yn ddiweddar, mae nifer o fesurau wedi eu rhoi yn eu lle gan *MHC* er mwyn gwella'r sefyllfa, yn cynnwys arwyddion a mapiau wrth bob mynedfa yn dangos llwybrau y gellir eu defnyddio. Gwyrdd – eu defnyddio, coch – peidio â'u defnyddio.
- Maen nhw wedi datblygu cwrs cynefino gwell ar gyfer aelodau staff newydd, yn cynnwys elfennau o'r cod cefn gwlad, fel cau'r gatiau i gyd, peidio gollwng sbwriel a sut i fynd yn agos at geffyl. Nid yw rhai o'r staff a'r cleifion wedi byw yng nghefn gwlad erioed a heb wybod am y cod cefn gwlad.
- Bydd rhif ffôn ar gael 24/7 yn fuan os bydd unrhyw ddigwyddiad pellach neu angen cymorth. Bydd hwn ar gael i bawb ac fe'i cyhoeddir yn y man.
- Mae cyfanswm o 69 preswylydd yno, ond maen nhw'n dal i recriwtio staff.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1

Dyffryn Trading Estate

Rhyl Road

Denbigh

LL16 5SJ

01745 817676

07775 717602